Cofnodion cyfarfod rithiol 10 Tachwedd 2020 a gynhaliwyd drwy ddefnyddio offer digidol Zoom am 7 yn yr hwyr.		
PRESENNOL		
Daniel Williams	Cynog Prys	
Lliwen Griffith-Williams	Nerys John	
Iwan Huws	Emyr Gareth	
Iestyn Harris	Dafydd Huws	
Cynghorydd Sir - Gareth Griffiths	Wynne Barton - Swyddog Ariannol	
1.0	**GEIRIAU AGORIADOL Y CADEIRYDD AC YMDDIHEURIADAU**	
	Agorwyd yn ffurfiol y cyfarfod misol gan y Cadeirydd Iwan Huws. Derbyniwyd ymddiheuriad gan Elliw Williams, Llŷr Evans, Casi Roberts ac Eifion Williams.	
1.1	Diolchodd y Cadeirydd I bawb a gyfrannodd at Wasanaeth Rhithiol Sul y Cofio. Derbyniodd y Cynghorydd Daniel Williams ar ran pawb gan gyfeirio mai ymdrech tîm oedd o, diolchodd i Llŷr Evans am ei ddarlleniad, y Tad Dylan am y rhan defosiynol, Erin a Now am ddarllen ar ran yr ieuenctid, Cynghorydd Casi am osod y Popis a'r Cynghorydd Iestyn Harris am dwtio'r a chwynnu'r ardal o amgylch y cloc.	
1.2	Cynllun Cyfaill – dim wedi newid.	
2.0	**ADRODDIAD Y CYNGHORYDD SIR**	
	Ategodd y Cynghorydd Sirol geiriau'r Cadeirydd a diolch i'r Cyngor Cymuned am y Gwasanaeth Sul y Cofio. Dywedodd hefyd ei fod am aros yn bresennol yn y cyfarfod a byddai'r cyfrannu at eitemau fe y maent yn codi.	
3.0	**DATGAN DIDDORDEB**	
	Emyr Gareth yn datgan diddordeb ynglŷn â phrosiect Lan y Môr.	
4.0	**CADARNHAU GWARIANT MIS BLAENOROL A'R ADRODDIAD ARIANNOL BLAENOROL**	
4.1	Cyflwynwyd adroddiad ariannol mis Hydref 2020. Derbyniwyd hwy fel rhai cywir.	
4.2	Cyflwynwyd cymhariaeth 6 mis rhwng y gyllideb draft a'r gyllideb wirioneddol. Dywedodd y Swyddog Ariannol bod y gwariant ar hyn o bryd yn symud fel y disgwylir.	
4.3	Cyfeiriwyd bod anfoneb Cyngor Gwynedd am y Toiledau Cyhoeddus wedi ei dalu. Trafodwyd y mater o edrychiad y toiledau. Cyfeirwyr bod y Cyngor Cymuned wedi gofyn I Gyngor Gwynedd os oedd modd i baentio'r adeilad a'r gost y Cyngor Cymuned ond i ddyddiad nid oes ymateb wedi bod. Dywedodd y Cynghorydd Daniel Williams bod person wedi cynnig paentio mural ar yr adeilad ac os na fyddai hyn yn bosib yna byddai defnyddio paent lliw hapus yn ddigonol. Dywedodd y Cadeirydd Sir y byddai yn gwneud ymholiadau ar y mater yma.	**GG**
5.0	**CADARNHAU COFNODION MIS BLAENOROL**	
5.1	Cadarnhawyd Cofnodion mis Medi.	**CLERC**
5.2	Cyfeiriwyd at faterion yn codi:Jet Skis ar y Fenai - Dywedodd y Clerc ei bod wedi anfon at Gyngor Llanidan yn cyfeirio at y mater ac wedi anfon gwahoddiad i Gyngor Cymuned Llanidan	**CLERC**

	i drafod y mater mewn cyfarfod rhithiol, nid oes ymateb wedi ei dderbyn hyd yma. Cyfeiriodd y Cadeirydd at y Cyfarfod Cyhoeddus Rhithiol Ymddiriedolaeth Harbwr Caernarfon ar y mater ar 21ain o Dachwedd 2020. Mae angen cofrestru i fod yn rhan o'r cyfarfod, ar hyn o bryd mae oddeutu 30 wedi cofrestru. Mae'r linc ar gyfer y cyfarfod i'w gael ar safle we'r Ymddiriedolaeth Harbwr. Bydd y Cadeirydd Iwan Huws yn gallu adrodd yn ôl i'r Cyngor wedi'r cyfarfod. Mae'r mater o drwyddedu'r Jet Skis wedi ei godi gan Hywel Williams.	**IH**
5.3	Graffiti ar y cysgodfannau - dywedodd y Clerc eu bod wedi bod mewn cysylltiad â'r heddlu ac wedi derbyn gwybodaeth ond doedd dim fwy o weithred i fod ar y mater a bod y ffeil wedi ei gau.	
5.4	Mae cyflwr Ffordd Stryd Gwelfor a'r difrod i Fin Halen wedi ei anfon at Priffyrdd Gwynedd, nid oes ymateb wedi ei dderbyn hyd yma.	**CLERC**
5.5	Gwaith cynnal llwybrau - dywedodd y Clerc bod y Gwaith torri Llwybr Rowen a Llwybr 21 i'w gwblhau mis yma hefyd bydd Gwaith symud y compost yn cael ei gwblhau hefyd.	
5.6	Mae'r Cynghorydd Casi Roberts wedi bod mewn cysylltiad â Garddwr ynglŷn â safle Moria, gobeithir derbyn pris erbyn y mis nesaf.	**CR**
5.7	Japanese Knotweed - cyfeirwyd at y pla hwn sydd yn ymledu i gefnau tai pobl sydd yn byw a'r stryd Bangor. Mae'r planhigion yn dod oddi ar dir yr hen reilffordd sydd mewn perchnogaeth Cyngor Gwynedd. Mae'n gyfrifoldeb a'r Gyngor Gwynedd i ddelio a'r broblem ac i atal y planhigion i ymledu i dir preifat. Y Clerc i anfon at Gyngor Gwynedd ar y mater.	**CLERC**
5.8	Y Clerc i anfon at y Tad Dylan i'r ddweud am y Goeden Nadolig bydd yn cael ei chodi yn ardal Church House gan Gŵyl y Felin a Chyngor Cymuned y Felinheli fel partneriaeth.	**CLERC**
6.0	**CEISIADAU CYNLLUNIO**	
6.1	Apêl o dan Adran 78(i) App/Q6810/A/20/3256005 Min y Nant, Trem y Foel Y Felinheli LL564OZ C18/1148/20/LL – nid yw sylwadau'r Cyngor Cymuned wedi newid	
	C20/0897/20/LL 3 Elim Cottages Y Felinheli LL56 4JR – codi sied ar gyfer storio cyfarpar offer busnes peirianneg sifil yngyd a chodi ffens diogelwch – **DIM GWRTHWYNEBIAD**	
	C20/0917/20/DT – 11 Stryd Menai Y Felinheli LL56 4HX-estyniad to gwastad yn y cefn - **DIM GWRTHWYNEBIAD**	
	Bydd Cais Cynllunio hen safle Ferodo yn cael ei ystyried pan fydd fwy o wybodaeth wedi ei dderbyn yn dilyn cais gan Gyngor Gwynedd am fanylion pellach.	
7.0	**PRIFFYRDD, MEINCIAU A CHYSGODFANNAU**	
7.1	Nid yw Mainc ger Stepiau Cei wedi ei wneud hyd yma ond ma ear restr i'w wneud can y contractwr.	**DW**
7.2	Dywedodd y Cynghorydd Sir ei fod wedi bod yn gwneud ymholiadau gydag Allan Bowers ar y Wal Gynnal yn arwain at y Marina, Bydd Allan Bowers yn anfon at y Cynghorydd Sir gyda gwybodaeth sydd ganddo. Bydd hefyd yn trafod y	

	mater hwn yr wythnos ganlynol gyda Swyddog o Gyngor Gwynedd.	
7.3	Llinellau Melyn Dwbl wedi eu gosod yn y pentref.	
8.0	**LLWYBRAU A LON LAS**	
8.1	Dim ymateb wedi bod ynglŷn â chynnal cyfarfod rhithiol a swyddogion llwybrau Cyngor Gwynedd. Y Clerc i ail anfon at y Swyddog perthnasol a hefyd anfon at Wyn Williams.	**CLERC**
8.2	Mae digwyddiadau o wartheg wedi bod ar y Lon Las ger Llanfairisgaer yn codi oherwydd bod giatiau yn cael eu gadael ar agor ac mae hyn o ganlyniad bod defnyddwyr y llwybr yn chwilio am y Llwybr (19). Mae mater o ddim saethau ac yn y blaen yn fater sydd angen ei drafod a Swyddogion Llwybrau Gwynedd yn y Cyfarfod Rhithiol.	**CLERC**
9.0	**MYNWENT, MAES PARCIO A SAFLE MORIA**	
9.1	Toriad i wair y Fynwent wedi ei gwblhau.	
10.0	**PROSIECTAU**	
10.1	Gwaith ar y prosiect yn symud i'w derfyn. Yr wythnos yma gobeithir rhoi wyneb Newydd i'r ffordd, codi'r Giât olaf ac yna bydd y ffordd yn gallu cael ei hail agor. Gobeithir bydd y Gwaith wedi ei gwblhau erbyn diwedd y mis i ddechrau mis Rhagfyr. Yn dilyn cwblhau'r gwaith bydd angen trafod cyflwyno proses beth i wneud a'r giatiau pan fydd llifogydd. Y Gobaith yw bydd hyn yn rhan o'r Cynllun Gwydnwch, lle bydd wardeiniaid llifogydd y Cyngor Cymuned ynghyd a gwirfoddolwyr yn gallu gweithredu'r giatiau. Y mater hwn i'w drafod. Disgwylir am rybudd oddi wrth Gyngor Gwynedd i gyfarfod ynglŷn â'r mater.	
10.2	Cae Chwarae - cyfeiriodd y Cadeirydd Iwan Huws at e-bost y Cynghorydd Elliw Williams ei bod yn methu cael ymateb gan Rhys Jones er mwyn sicrhau copi o'r method statement ar gyfer gosod offer Newydd o fewn y Cae Chware. Bydd y mater yma yn cael ei weithredu gan y Cynghorydd Emyr Gareth. Dywedodd y Cynghorydd Daniel Williams ei fod yn ymwybodol bod dim ymgynghoriad wedi bod gyda chymdogion Lan y Môr ynglŷn â datblygiad y Cae Chwarae. Penderfynwyd byddai datganiad yn cael ei wneud drwy wefan y Cyngor ynglŷn â defnyddio Social media. Y Clerc i ofyn i'r Cynghorydd Elliw Williams i wneud datganiad.	**EG** **CLERC/EW**
11.0	**NEUADD GOFFA A CHLOC**	
11.1	Dywedodd y Cynghorydd Daniel Williams bod y Neuadd yn parhau ar gau. Er hynny mae cais wedi dod i law gan y Brownies/Guides a Bowlio I ddefnyddio'r neuadd erbyn diwedd y Mis. Ar hyn o bryd rydym yn gweithio gyda hwy i symud ymlaen a hyn. Mae asesiadau risg y Brownies wedi ei dderbyn a disgwylir un bowlio erbyn dechrau wythnos nesaf. Bydd yr is-bwyllgor yn cyfarfod wythnos nesaf. Ni fydd yr is-bwyllgor yn gwneud penderfyniad i ail agor y neuadd ond yn hytrach yn gwneud argymhellion sut bydd y neuadd yn cael ei agor a'i ddefnyddio i Gyfarfod Llawn y Cyngor Cymuned ac os bydd hyn angen ei wneud cyn cyfarfod mis Ragfyr yna bydd Cyfarfod Rhithiol Arbennig yn cael ei gynnal.	**DW**
12.0	**GWEFAN**	

	Gwaith yn parhau i ddiweddaru'r wefan.	**CLERC**
13.0	Materion eraill - Mae cais wedi ei dderbyn ynglŷn ag ardal trwyddedu'r Garddfon. Y Clerc i wneud ymholiadau.	
	Cydnabod unigolion yn y pentref - ar ôl trafodaeth fer ynglŷn â'r ffordd i wneud hyn penderfynwyd byddai'r mater yma ar agenda mis Rhagfyr.	**Clerc**
	Daeth y cyfarfod i ben oddeutu 21:05	
Llofnod:		**Dyddiad:**